**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar**

**Blant sy'n Derbyn Gofal**

**DYDD MERCHER 25 CHWEFROR 2015**

**12.00-13.30**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC, y Dirprwy Lywydd - Cadeirydd

Joyce Watson AC

Tom Davies - staff cymorth Angela Burns AC

Fiona Openshaw - staff cymorth Joyce Watson AC

George Rudebusch - staff cymorth David Melding AC - cofnodwr

**Yn bresennol:**

Menna Thomas - Uwch-swyddog Ymchwil a Pholisi, Barnardo's

Hywel Ap Dafydd - Swyddog Polisi, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Deborah Jones, Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care

Rhian Williams, Cynorthwyydd Personol / Ysgrifennydd Gweinyddol, Voices From Care

**CROESO A CHYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD**

Agorodd DM y cyfarfod a chroesawodd y rhai oedd yn bresennol.

**COFNODION**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2014 a chawsant eu cymeradwyo.

**MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT YN ROTHERHAM**

Cyflwynodd DM yr adroddiad gan yr Athro Alexis Jay OBE ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham; cafodd nodyn briffio ar yr adroddiad ei gynnwys yn agenda'r cyfarfod. Mae'r adroddiad yn datgelu canfyddiadau o 1,400 amcangyfrifedig o blant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt rhwng 1997 a 2013. Roedd y nodyn briffio hefyd yn rhoi crynodeb o ddadl seneddol a gynhaliwyd ar 2 Medi 2014 ynghylch yr adroddiad.

Nodwyd fod yr adroddiad hwn a'r ddadl ddilynol yn golygu bod pobl yn cymryd sefyllfa plant sy'n derbyn gofal o ddifrif. Mae'r dystiolaeth ddiweddar a ddaeth i law yn bryderus, yn arbennig o ystyried y dechreuodd y broblem hon gael mwy o sylw yn y 1950au a'r 1960au.

**UNRHYW FATER ARALL**

Cafwyd trafodaeth ynghylch y cyfarfod sydd i ddod yn yr haf ar gyfer y grŵp trawsbleidiol. Awgrymodd DM wahodd cynrychiolwyr o'r ymchwiliad, gyda barnwr o bosibl, i ddod i'r cyfarfod er mwyn hwyluso'r drafodaeth ynghylch adroddiad Rotherham. Cytunodd JW y byddai gwneud hyn hefyd yn apelio'n gyffredinol i Aelodau'r Cynulliad. Nid yn unig y byddai hyn yn cynyddu'r presenoldeb yn y cyfarfod, ond gallai cyfarfod o'r fath hefyd annog trafodaeth neu gwestiynau i weinidogion ynghylch y mater hwn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Awgrymodd MT hefyd fod y grŵp yn ystyried creu siarter. Cytunodd DM, gan ychwanegu y dylai'r siarter fod yn gynhwysfawr. Cyfrannodd JW y dylai adroddiadau – da a drwg – ynghylch plant sy'n derbyn gofal gael eu cynnwys. Nod y siarter fyddai cyflwyno rhywbeth i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n rhoi cyd-destun i'r materion ynghylch plant sy'n derbyn gofal ac yn ychwanegu at y mater. Drwy ddangos sbectrwm llawn o ganlyniadau plant sy'n derbyn gofal yn ddiweddarach mewn bywyd, byddai'r grŵp yn cyflwyno rhianta corfforaethol heb ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

## DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nid yw dyddiad y cyfarfod nesaf wedi'i benderfynu, ond mae wedi'i drefnu dros dro ar gyfer haf 2015.